
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ardoll Ymwelwyr i Gymru

## Cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy



## Beth rydyn ni'n ei wybod hyd yma?

**Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi'r gallu i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr ar arosiadau dros nos yn eu cymunedau.**

Bydd y cyfraniad hwn yn cael ei dalu gan ymwelwyr ac yn cael ei fuddsoddi mewn twristiaeth gynaliadwy, gan helpu i dyfu ein heconomi, cefnogi ein cymunedau a diogelu harddwch Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Pam mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno ardoll?

**Yn ein barn ni, mae'n deg ac yn rhesymol gofyn i ymwelwyr wneud cyfraniad bach tuag at gostau ehangach twristiaeth.**

Ein bwriad gyda'r ardoll yw creu ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd rhwng trigolion ac ymwelwyr, a hynny er mwyn gwarchod ein hardaloedd lleol a buddsoddi ynddynt. Dylai unrhyw ddefnydd o ardoll yng Nghymru annog dull mwy cynaliadwy o ran twristiaeth.

Rydyn ni'n gwybod bod twristiaeth yn chwarae rhan hanfodol o ran cefnogi economïau lleol. Ond gall twristiaeth anghytbwys, heb sylfaen i'w chynnal, hefyd roi pwysau ar gymunedau lleol a thanseilio'r adnoddau o ansawdd uchel rydyn ni gyd eisiau eu defnyddio a'u cynnig i'n hymwelwyr.

## Beth fydd cost yr ardoll?

**Dim ond cyfran fach o holl wariant ymwelydd y byddai'r ardoll yn ei chynrychioli.**

Yn rhan o'r broses ddeddfwriaethol, bydd yn ofynnol i'r Senedd (Senedd Cymru) gymeradwyo penderfyniadau ynghylch cyfradd ardoll ymwelwyr yng Nghymru.

## Pwy fydd yn talu'r ardoll?

**Os caiff yr ardoll ei rhoi ar waith gan awdurdod lleol, bydd yn berthnasol i ymwelwyr sy'n aros mewn llety dros nos, p'un a ydynt wedi teithio o ran arall o Gymru neu o rywle arall.**

Bydd yr ardoll yn syml o ran ei dyluniad a bydd yn ceisio rhoi cyn lleied o faich â phosibl ar fusnesau.

## Sut bydd yr ardoll yn cael ei gwario?

Bydd pob awdurdod lleol yn gwneud ei benderfyniadau ei hun ar sut caiff y refeniw ei wario er mwyn datblygu twristiaeth gynaliadwy yn eu hardaloedd lleol.



# Ble arall mae ardoll ymwelwyr ar waith?

**Mae ardollau ymwelwyr yn gyffredin ar draws y byd ac mae mwy o gyrchfannau twristiaid, gan gynnwys yn y Deyrnas Unedig, yn eu cyflwyno i helpu i gyllido'r gwasanaethau cyhoeddus a'r seilwaith sy'n elfennau hanfodol o brofiadau ymwelwyr.**

Prin yw'r dystiolaeth sy'n awgrymu bod ardollau ymwelwyr yn cael effaith negyddol ar yr economi. Bydd llawer ohonom wedi talu ardoll heb sylwi pan oeddem dramor. Mae cyrchfannau fel Majorca, Amsterdam, Marseille, a Malta yn defnyddio arian o'u hardollau i gefnogi economi ymwelwyr iach i bawb, gan ddiogelu'r seilwaith a'r gwasanaethau  mae ymwelwyr yn dibynnu arnynt.

Os ydych chi wedi trefnu gwyliau i un o'r lleoedd poblogaidd hyn, byddwch yn cyfrannu at eu diwydiant twristiaeth drwy dalu ardoll.

**Gwlad Groeg**, €0.5-4 yr ystafell y noson

**Paris**, €0.25-5 y person y noson

**Fenis**, €1-5 y person y noson neu
**Rhufain**, €2-7 y person y noson

**Lisboa**, €2 y person y noson

**Ynysoedd Baleares**, €1-4 y person y noson + 10%TAW

Dyma enghreifftiau o sut mae cyrchfannau eraill yn defnyddio'r arian o'u hardollau

### Manceinion

Codir treth dwristiaeth o £1 y person y noson mewn 74 o westai a fflatiau arhosiad byr â gwasanaeth yng nghanol dinas Manceinion a rhannau o Salford. Bydd y refeniw a godir yn cael ei ailfuddsoddi gan Ardal Gwella Busnes Llety Manceinion i wella profiad ymwelwyr â chanol y ddinas a chefnogi twf yr economi ymwelwyr.

### Ynysoedd Baleares

Mae'r Dreth Twristiaeth Gynaliadwy yn berthnasol i lety gwyliau. Mae'r ardoll yn €4 yr un i bobl sy'n aros mewn gwestai moethus, €3 yr un i bobl sy'n aros mewn gwestai ystod ganolig, a €2 yr un i bobl sy'n aros mewn fflatiau, llongau mordeithio, meysydd gwersylla a hosteli. Mae'r refeniw a godir yn cyfrannu at ddiogelu adnoddau ar yr ynysoedd.

### Ffrainc

Mae ymwelwyr yn talu'r 'Taxe de Séjour' ac mae'r swm yn seiliedig ar gyfradd ddinesig sy'n amrywio o €0.20 y person y noson (ar gyfer meysydd gwersylla 1 a 2 seren) i €4 y person y noson (ar gyfer palasau). Mae'r refeniw a godir yn cyfrannu at ddatblygu twristiaeth a'i hyrwyddo er mwyn ariannu costau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a diogelu ardaloedd naturiol.

## Pam nad yw ymwelwyr undydd yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer ardoll ymwelwyr?

**Mae heriau sylweddol o ran codi ardoll ymwelwyr ar ymwelwyr undydd.**

Rydyn ni'n gwybod bod ardoll ymwelwyr dros nos yn fodel sy'n gweithio, fel y dangosir gan nifer y cyrchfannau sy'n defnyddio tâl tebyg yn rhyngwladol.

# Pryd allai ardoll ymwelwyr gael ei chyflwyno mewn rhannau o Gymru?

**Rydyn ni'n bwriadu datblygu deddfwriaeth a'i chyflwyno i'r Senedd yn ystod tymor y llywodraeth hon.**

Isod, ceir syniad o'r amserlen ar gyfer y gwahanol gamau a'r hyn sydd angen digwydd cyn y gall ardoll gael ei chyflwyno gan awdurdod lleol yng Nghymru.

***Diwedd 2024***
*Cyflwyno Bil gerbron y Senedd er mwyn craffu arno.*

***Haf 2025***
*Pe bai'r Bil yn cael ei basio, byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â chymunedau cyn penderfynu ar gyflwyno ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd*

***2026***
*Wedi'r penderfyniad i gyflwyno'r ardoll yn eu hardaloedd, byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol roi hysbysiad cyhoeddus.*

***2027***
*Ar ddiwedd y cyfnod hysbysu, dyma'r pwynt cynharaf dangosol tebygol y gallai ardoll ymwelwyr fod ar waith yng Nghymru.*

Bydd deddfwriaeth ar gyfer ardoll ymwelwyr yn cael ei chyflwyno i'r Senedd erbyn diwedd 2024. Bydd y Senedd yn adolygu ac yn craffu ar y cynigion, yn cynnig gwelliannau, ac yn penderfynu drwy bleidlais a ddylid cymeradwyo'r ddeddfwriaeth ai peidio.

Rydyn ni'n tybio y bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud yn 2025.

Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r ddeddfwriaeth, bydd rhaid i bob awdurdod lleol benderfynu a yw'n dymuno dechrau'r broses i gyflwyno ardoll.

Byddai angen i awdurdod lleol ymgynghori â'i gymunedau i lywio ei benderfyniad ynghylch rhoi ardoll ar waith.

Unwaith y bydd awdurdod lleol yn penderfynu cyflwyno ardoll, bydd cyfnod rhybudd er mwyn sicrhau bod busnesau ac ymwelwyr yn cael amser i baratoi.

Drwy'r broses uchod, rydyn ni'n amcangyfrif mai'r cynharaf y bydd ardoll ymwelwyr ar waith mewn unrhyw ran o Gymru yw 2027.

**Byddai'r ardoll ymwelwyr yn rhoi pŵer yn nwylo cymunedau lleol ac yn rhoi adnodd iddynt i hybu twristiaeth gynaliadwy ac adfywiol.**






Mae'r gwaith hwn yn cael ei gynnal yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru.
Am ragor o wybodaeth:
**Ardoll Ymwelwyr i Gymru | LLYW. CYMRU**

**E-bost: ardollymwelwyr@llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron / Crown copyright 2023 WG48041